Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) cryf: gwelliannau allweddol gan Gyswllt Amgylchedd Cymru

Chwefror 2023

Crynodeb o brif argymhellion ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi bod yn gysylltiedig â chraffu Cam 1 o'r Bil Amaethyddiaeth gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA); a nod y ddogfen hon yw helpu ASau i ddatblygu'r Bil ar gyfer y cam nesaf. Mae hyn yn fframwaith angenrheidiol i ddatblygu ffermio cynaliadwy yng Nghymru, ac rydym yn credu ei fod eisoes yn Fil effeithiol. Rydym yn falch bod y Pwyllgor ERA yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae gennym rai argymhellion allweddol i'w gryfhau, a'r pwysicaf ohonynt yw:

- **Symleiddio amcanion:** Ailddrafftio Rhan 1, adrannau 1-3 o'r Bil i sicrhau bod yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy'n cael eu cyflawni gyda'i gilydd, heb adael i un amcan gael blaenoriaeth neu gael ei anwybyddu.
- **Sicrhau pontio di-dor:** Cynnwys cymal machlud ar gyfer y Cynllun y Taliad Sylfaenol o fewn y Bil, i sicrhau na all taliadau sydd wedi'u cysylltu ag amcanion rheoli tir yn gynaliadwy'r Bil barhau am gyfnod amhenodol.
- **Pennu gwaelodlin gadarn ar gyfer safonau:** Cynnwys dyletswydd i bennu Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn pryd ar gyfer lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i sicrhau bod gan y Cynllun waelodlin rheoleiddio gadarn ar waith sy'n llywio cymhwysedd i daliadau.
- **Pwysleisio pwysigrwydd natur:** Cyfeiriadau cliriach at bwysigrwydd adfer bioamrywiaeth, gwella mynediad i'r cyhoedd i gefn gwlad a gwarchod tirweddau Cymru.

Mae briffiau cynhwysfawr ar gael ar bob un o'r gwelliannau allweddol a awgrymir gennym, anfonwch e-bost i karen@waleslink.org a liz@waleslink.org i ofyn amdanynt, neu os hoffech gael cyfarfod dilynol ag aelodau CAC i drafod y rhain yn fwy manwl.

Gwelliannau Allweddol

1. Rhan 1, Adrannau 1-3: Diffiniad, Amcanion a Dyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Rydym yn argymell bod y tair adran gyntaf o'r Bil yn cael eu hailddrafftio i gynnwys:

- diffiniad y Cenhedloedd Unedig o reoli tir yn gynaliadwy, i roi sail ddeddfwriaethol gadarn i ddehongli amcanion y Bil yn y dyfodol;
- adfer bioamrywiaeth yn ogystal â gwytnwch ecosystemau yn amcan 3 i'w gwneud yn amlwg bod ein bioamrywiaeth a'n ecosystemau wedi'u dihysbyddu a'u diraddio'n ddifrifol ac i adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd, y cytunwyd arno yn COP 15;
- cadwraeth tirweddau yn amcan 4, ynghyd ag adnoddau diwylliannol, i gydnabod y berthynas rhwng pobl a lle a chynnig ffordd gyfannol o fesur allbynnau a chanlyniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn ffordd sy'n berthnasol i ystod eang o bobl, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg;
- cysylltiad mwy sylweddol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i hegwyddor datblygu cynaliadwy; a
- Dyletswydd wedi'i chryfhau mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) i gryfhau'r gofyniad i'r amcanion gael eu cyflawni gyda'i gilydd, mewn ffordd integredig.

2. Cryfhau canlyniadau'r Bil i fioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth

Mae CAC yn cynnig tri gwelliant gyda'r nod o gryfhau cyfraniad y Bil at adfer, cynnal a gwella bioamrywiaeth i gynnal gwytnwch ecosystemau. Y gwelliannau hyn yw:

- Newid i 3ydd amcan 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu' i 'adfer, cynnal a gwella bioamrywiaeth i helpu gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu'
- Cynnwys dau gymal newydd yn yr Adran 4 gyfredol (dangosyddion a thargedau rheoli tir yn gynaliadwy) i:
    - cyflwyno gofyniad bod o leiaf un targed a dangosydd sy'n seiliedig ar gyflwr rhywogaethau gwyllt ar dir ffermio yn cael eu cynnwys yn y dangosyddion a thargedau rheoli tir yn gynaliadwy; a

    - gofyniad i asesu'r cyllid sydd ei angen i gyflawni pob un o'r dangosyddion a thargedau a bennwyd o dan ddatganiad Gweinidogion Cymru ar ddangosyddion a thargedau.
- newid y rhestr o ddibenion ar gyfer cymorth yn adran 8 i gynnwys y geiriad newydd o amcan 3 yn y rhestr.

Mae cynnwys adfer bioamrywiaeth yn sefydlu'r berthynas sylfaenol rhwng bioamrywiaeth a'r systemau a grëir, a'r buddiannau sy'n dod i gymdeithas yn sgil hyn. Mae'r gwelliannau hyn yn ceisio ei gwneud yn amlwg bod ein bioamrywiaeth a'n ecosystemau mewn cyflwr lle maent wedi'i dihysbyddu a'u diraddio'n ddifrifol. Mae'r gofynion pwysig i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau'n dangos yr angen i reoli cynefinoedd presennol, ac i wella gwytnwch yr hyn sydd gennym eisoes, ond nid ydynt yn datgan graddfa'r newid sydd ei angen. Mae adfer ecosystemau'n elfen allweddol o'r fframwaith bioamrywiaeth Kunming-Montreal byd-eang newydd, a dylai'r Bil ei gwneud yn amlwg bod gan ffermio, sy'n cynnwys bron i 90% o Gymru, rôl hanfodol i'w chwarae i gyflawni'r adferiad hwn.

3. Cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae CAC yn cynnig 2 gwelliant i'r Bil i sicrhau bod y fframwaith cywir ar waith i weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n effeithiol. Y rhain yw:

- dyletswydd i sefydlu Safonol Gofynnol Cenedlaethol (NMS) ar gyfer ffermio cyn lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Ionawr 2025, i sicrhau bod gwaelodlin rheoleiddio glir ar waith i ategu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Pe bai Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno ar ôl lansio'r Cynllun yn 2025, bydd hyn yn achosi dryswch i ffermwyr;
- newid Adran 11: Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â gwirio cymhwystra i gael cymorth ac ati, fel y bydd 'yn rhaid' i Weinidogion gyflwyno rheoliadau sy'n caniatáu iddynt i weithredu eu pwerau i wirio cymhwystra o dan y Cynllun ac ar gyfer monitro a gorfodi cymhwystra. Rydym yn bryderus bod y rhan hon o'r Bil yn cael ei chyflwyno fel un wirfoddol ar hyn o bryd.

4. Cynnwys cymal machlud ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ar gyfer diwedd pendant i daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) o fewn y Bil. Mae gan Gymalau 15 ac 16 y potensial i ymestyn

deddfwriaeth CAP a'r cynllun BPS i gynnal y drefn bresennol o daliadau uniongyrchol. Mae ein gwelliant yn cyflwyno cymal machlud sy'n dod i ben ar ddiwedd y cyfnod pontio o bum mlynedd. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r CAP a'r BPS yn dod i ben pan fydd ffermio Cymru'n symud yn gyfan gwbl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae ein gwelliant yn cynnwys pŵer i ymestyn y cyfnod hwn unwaith, am hyd at 12 mis. Rydym o'r farn y byddai estyniad yn angenrheidiol mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Mae CAC yn credu bod hon yn ffordd ymarferol o sicrhau diwedd ar daliadau BPS sy'n anghynaliadwy'n amgylcheddol ac economaidd a hynny mewn modd sy'n cynnwys elfen o hyblygrwydd i ddibenion pragmatig.

5. Gwella darpariaeth y Bil ar gyfer mynediad i'r cyhoedd

Roedd aelodau CAC yn falch o weld mynediad i'r cyhoedd yn cael ei gynnwys yn amcan 4 ac yn y dibenion ar gyfer cymorth o dan y Bil. Rydym yn awgrymu tri gwelliant i gryfhau ac egluro'r ddarpariaeth mynediad i'r cyhoedd, sef:

- newid y diben cymorth mynediad i'r cyhoedd o 'cynnal a gwella mynediad i'r cyhoedd' i 'gwella mynediad i'r cyhoedd', i osgoi talu ffermwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol yn unig yn achos cynnal mynediad i'r cyhoedd;
- newid y diffiniad o weithgareddau ategol i gynnwys 'hyrwyddo cyfleoedd i wella mynediad i'r cyhoedd ac i ymgysylltu â chefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol.' Byddai hyn yn egluro rôl mynediad i'r cyhoedd ac yn ei wneud yn unol â gweithgarwch anamaethyddol arall ar dir ffermio sydd wedi'i nodi yn y Bil; ac
- ychwanegu diffiniad o gefn gwlad, neu fodd o egluro bod cefn gwlad yn cynnwys dyfroedd mewndirol i sicrhau bod ffermwyr yn cyfrannu hefyd at wella mynediad ar draws eu tir i'n mannau glas.

Os oes unrhyw beth arall sydd yn y ddogfen hon yr hoffech ei drafod, cysylltwch â Chyswllt Amgylchedd Cymru'n uniongyrchol. Fel rhwydwaith o gyrff anllywodraethol, mi allwn eich rhoi mewn cysylltiad ag arbenigwyr neu'r prif randdeiliaid a awgrymodd y newidiadau hyn. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn sut y gall rheoli tir arwain at fuddiannau ehangach i genedlaethau'r dyfodol, cymunedau gwledig ac adferiad natur, ac rydym yn awyddus i helpu ASau ym mha bynnag ffordd y gallwn i wneud yn siŵr y bydd amaethyddiaeth yng Nghymru'n wirioneddol gynaliadwy ymhen yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Cysylltiadau dilynol os oes gennych gwestiynau neu am gael rhagor o wybodaeth

karen@waleslink.org a liz@waleslink.org

Dogfennau cysylltiedig

Mae dogfennau eraill sydd ar gael neu a fydd ar gael yn fuan gyda thestun cyfreithiol y gwelliannau a awgrymir.

Rhwydwaith o Gyrff Anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt). Mae'r Cyswllt yn gorff cyfryngol mawr ei barch sy'n cysylltu'r llywodraeth gyda'r sector Cyrff Anllywodraethol amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.



Swyddfa Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675